
Polisi Caffael Cynaliadwy

Sefydlwyd:
Diwygiedig Diwethaf:

Medi 2020
Pwyllgor Cynaliadwyedd Medi 2020



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

POLISI CAFFAEL CYNALIADWY

CYFLWYNIAD

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydnabod bod pob penderfyniad neu ddarfodiad caffael y mae'r Brifysgol yn ei wneud yn cael effaith ar yr amgylchedd, yr economi ac ar gymdeithas.

Bwriad y polisi hwn yw nodi ein cwmpas a'n disgwyliadau caffael cynaliadwy ar gyfer y Brifysgol a'i staff a hysbysu cyflenwyr ac isgontractwyr presennol a darpar gyflenwyr. Dylid ei ddarllen ar y cyd â pholisïau sefydliadol a chaffael ar faterion cynaliadwyedd penodol megis rheoli bwyd, carbon, cyflogaeth foesebol a chydaddoldeb ac amrywiaeth.

CAFFAEL CYNALIADWY

Mae nifer o ddiffiniadau o 'gaffael cynaliadwy'. Mae Met Caerdydd yn ceisio cymhwyso diffiniad eang sy'n tynnu o ffynonellau megis yr 10 egwyddor a nodir yng Nghompact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig hyd at 'Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015' Llywodraeth Cymru a Pholisi Caffael Cyhoeddus Cymru. (WPPS)

Mae'r olaf yn gosod disgwyliadau penodol iawn ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru.

Drwy weithredu egwyddorion ac arferion caffael cynaliadwy, nod y Brifysgol yw diwallu ei hangen am gynhyrchion a gwasanaethau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian, ac eto'n darparu'r effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mwyaf cadarnhaol posibl drwy gydol cylch bywyd cyfan beth bynnag sydd wedi'i gaffael.

Mae caffael cynaliadwy yn cysylltu â gweledigaeth economi gylchol, lle mae cynhyrchion a deunyddiau'n cynnal eu gwerth cyhyd ag y bo modd, bod y defnydd o adnoddau a gwastraff yn cael eu lleihau, a bod cynhyrchion yn cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu.

Mae'r rhwymedigaethau hyn wedi'u hymgorffori yn 'Strategaeth Prifysgol Iach' Met Caerdydd.¹ Drwy weithredu'r strategaeth hon, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygu amgylchedd gwaith ac astudio sy'n gymdeithasol gydlynol ac amgylcheddol gyfrifol.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys y tri nod craidd canlynol:

- Cyfrifoldeb Cymdeithasol – Cyfrannu at gymdeithas decach drwy wella effaith rhyngweithio â'n cymunedau lleol, rhanbarthol a rhyngwladol
- Effeithlonrwydd Amgylcheddol - Ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol fel egwyddor drefniadol graidd ar draws yr holl weithgareddau
- Iechyd a Lles – Creu amgylchedd lle caiff unigolion eu hysbrydoli a'u cefnogi i berfformio hyd y gorau o'u galluoedd, ac wrth wneud hynny, cyfrannu at nodau, gwerthoedd a llwyddiant y Brifysgol.

<http://www.cardiffmet.ac.uk/about/sustainability/Pages/Policies,-Strategies-and-Plans.aspx>

¹ <https://www.unglobalcompact.org/what-is-gc/mission/principles>

¹ <https://gov.wales/well-being-future-generations-wales-act-2015-guidance>

¹ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/wales-procurement-policy-statement.pdf>

¹ <http://www.cardiffmet.ac.uk/healthyuniversity/Pages/default.aspx>

Mae'r Polisi Cynaliadwyedd a'r Strategaethau Cynaliadwyedd yn ein hymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO14001:2015, gan greu diwylliant o gynaliadwyedd sydd wedi'i wreiddio yn ein meddylfryd a'n hymddygiad.

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr Cyflog Byw sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Cyflog Byw. Yn unol ag egwyddorion y Cyflog Byw, mae'r Brifysgol wedi cytuno â'r cyflenwyr hynny sy'n darparu gwasanaethau rheolaidd ar y safle i'r Brifysgol y bydd holl staff y cyflenwyr hyn ar y safle hefyd yn cael eu talu ar gyfraddau Cyflog Byw o leiaf.

EGWYDDORION YMRWYMIAD CAFFAEL CYNALIADWY

Sicrhau bod egwyddorion caffael cynaliadwy yn cael eu cymhwyso ar bob cam o'r prosesau caffael.

Defnyddio proffilio risg nwyddau i helpu yn ein categori cyflenwi / strategaeth² nwyddau a strategaethau ymgysylltu â'r farchnad.

Defnyddio offeryn Asesu Risg Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru ('SRA') lle bo'n briodol.

Archwilio ymarferoldeb datblygu fersiwn ysgafnach o'r SRA ar gyfer categorïau risg isel.

Defnyddio dull dadansoddi 'cylich bywyd llawn' ar gyfer penderfyniadau caffael i sicrhau bod elfennau craidd caffael cynaliadwy yn cael eu cymhwyso, sef hawliau dynol, yr amgylchedd, arferion gweithredu a chyflogaeth deg, cymdeithas a chymunedau.

Sicrhau bod gwasanaethau a phrosesau allanol yn cael eu rheoli neu eu dylanwadu er mwyn lleihau unrhyw faterion amgylcheddol, cymdeithasol neu foesegol negyddol a sicrhau bod telerau ac amodau cyflogaeth deg yn cael eu defnyddio.

Atal llygredd a hyrwyddo diogelu'r amgylchedd a lleihau effaith yr holl weithgareddau ar yr amgylchedd;

Cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy ac iach drwy warchod adnoddau naturiol a lleihau gwastraff a llygredd y gellir ei osgoi;

Gweithredu rheoli gwastraff yn effeithiol drwy weithdrefnau ailddefnyddio ac ailgylchu a phrynu deunydd ailgylchedig ac ailgylchadwy lle bo hynny'n bosibl;

Ystyried nwyddau a gwasanaethau y gellir eu cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu mewn ffordd sy'n amgylcheddol gyfrifol;

Rhoi blaenoriaeth, lle mae eitemau o gost debyg, i'r rhai sy'n cael eu cynhyrchu â chynnwys wedi'i ailgylchu'n uchel neu sy'n well yn amgylcheddol;

Gweithio gyda'n cyflenwyr i nodi a chymhwyso gwelliannau amgylcheddol, hawliau dynol, cyflogaeth a moesegol drwy gydol ein cadwyni cyflenwi uniongyrchol ac estynedig.

Sicrhau bod ein contractau caffael yn gosod rhwymedigaethau perthnasol a phriodol ar ein cyflenwyr a'n hisgontractwyr i gydymffurfio â'n hamcanion caffael cynaliadwy a chyfrannu atynt.

⁶ <http://www.cardiffmet.ac.uk/about/sustainability/Pages/Policies,-Strategies-and-Plans.aspx>

⁷ Ddarperir yr wybodaeth am risg nwyddau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Academi Gaffael Addysg Uwch y DU ('HEPA'), wedi'i hategu gan wybodaeth a gasglwyd gan Cardiff Met o adroddiadau ac adnoddau eraill, gan gynnwys mentrau'r Cenhedloedd Unedig a'r Llywodraeth, a sefydliadau, cynghreiriau a grwpiau gweithredu perthnasol.

Ceisio gwella gwybodaeth reoli a ddarperir gan gyflenwyr i ddarparu gwybodaeth gyfoethog a chywir am yr effaith ar gynaliadwyedd (e.e. effaith Co2 gan y Cwmni Rheoli Teithio)

HYSBYSU A CHEFNOGI EIN STAFF A'N MYFYRWYR

Darparu'r polisi hwn a chanllawiau a gwybodaeth ategol:

- Drwy'r broses sefydlu ar gyfer staff newydd, gan gynnwys mewn modiwlau hyfforddi gorfodol lle y bo'n briodol.
- Drwy ganllawiau ar safle'r fewnrwyd Caffael.
- Sicrhau bod y staff Caffael yn cael hyfforddiant a mynediad priodol i raglenni a mentrau cynaliadwyedd cydweithredol o fewn y sector AU a thu hwnt.
- Ymgysylltu yn ystod diwrnodau cymunedol misol gyda stondinau cyflenwyr a gwybodaeth

HYSBYSU A CHEFNOGI EIN GWEITHGARWCH CAFFAEL A'N CADWYNI CYFLENWI

Darparu'r polisi hwn a chanllawiau a gwybodaeth ategol:

- Drwy sefydlu proses cofnodion 'cyflenwr newydd' diwygiedig a gwell.
- Drwy gyfres gyfunol o ddogfennau templed, sy'n cwmpasu pob agwedd ar gaffael cynaliadwy, a gymhwysir ym mhob templed Prifysgol mae dogfennau tendro a dyfyniadau yn sicrhau bod pob cynigydd a chyflenwyr llwyddiannus yn gwbl ymwybodol o'n disgwyliadau o ran cynaliadwyedd.
- Drwy brosesau rheoli contractau'r Brifysgol, h.y. mewn cyfarfodydd adolygu cyfnodol lle bo hynny'n berthnasol a thrwy raglen 'hunanasesu cyflenwyr' flynyddol ar gyfer pob cyflenwr arall o nwyddau a gwasanaethau a brynir yn rheolaidd.
- Archwilio manteision posibl defnyddio offeryn ymgysylltu â chyflenwyr, naill ai wedi'i greu ar y cyd neu wedi'i ddarparu drwy 3^{ydd} parti (e.e. NetPositives).
- Datblygu canllawiau sy'n benodol i nwyddau ar gyfer nwyddau risg uchel ac effaith uchel.

MESURAU LLWYDDIANT

Yn flynyddol:

Nifer y cyflenwyr newydd a % sy'n ymateb i'r agwedd caffael gynaliadwy (dylem ofyn iddynt wneud hynny mewn rhyw ffordd)

% y cyflenwyr sy'n cymryd rhan yn y broses hunanddatgan wedi i ni ofyn eu bod yn gwneud.

Nodi, cofnodi ac adrodd ar fanteision a llwyddiannau diriaethol ledled y cadwyni cyflenwi.

% y 'nwyddau risg uchel' lle mae strategaethau a chanllawiau cynaliadwyedd penodol nwyddau yn bodoli.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu, ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd Ebrill 2020, sy'n cynnwys Partneriaethau Dirprwy Is-Ganghellor ac Ymgysylltu Allanol, Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd, Perchnogion Agweddau EMS, Undeb y Myfyrwyr – Llywydd yr SU a Swyddog Amgylcheddol Rhan-amser yr SU, Undebau Llafur a chynrychiolwyr Academaidd Ysgolion.

Cyflwynwyd y drafft i ymgynghoriadau'r Grwpiau Ffocws ar staff a gwirfoddolwyr myfyrwyr, wedi'i ddiweddarau a'i gymeradwyo ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 3 Medi 2020.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wirfoddoli ar gyfer adolygu'r Strategaeth /
Polisi Cynaliadwyedd, cysylltwch â Sustainability@cardiffmet.ac.uk